Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Mynach
# Pontarfynach
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 4QZ

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Mynach

Mae Ysgol Mynach wedi ei lleoli ym mhentref Pontarfynach, ger Aberystwyth yng Ngheredigion. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 33 disgybl ar y gofrestr rhwng 4 ac 11 oed. Ar gyfartaledd dros y tair mlynedd diwethaf, mae tua 8% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%. Mae 43% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod ychydig dros 3% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r canran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ebrill 2011 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2014. Mae'r pennaeth yn gyfrifol am arwain dwy ysgol gyfagos. Mae penaethiaid cynorthwyol y tair ysgol yn cydweithio'n agos gan arwain gwahanol agweddau ar draws yr ysgolion.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Mynach yn gymuned hynod glòs a theuluol, ble mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd da iawn. Mae gan y pennaeth weledigaeth flaengar sy'n canolbwyntio'n barhaus ar gynnal a chodi safonau cyflawniad a lles disgyblion. Mae'n cydweithio'n hynod llwyddiannus gyda'r pennaeth cynorthwyol, athrawon a'r chymorthyddion er mwyn a sicrhau datblygiad parhaus i'r ysgol. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda iawn. Maent yn cefnogi'r ysgol yn hynod effeithiol, tra hefyd yn gweithredu fel ffrind beirniadol yn llwyddiannus.

Mae medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn rhagorol. Mae bron bob disgybl yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Maent yn ymateb yn aeddfed a hynod llwyddiannus i'r cyfleoedd i wneud penderfyniadau ynglŷn a'u dysgu. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n fedrus, gan rannu arbenigedd yn llwyddiannus iawn. Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau hynod lwyddiannus gydag ysgolion eraill yn lleol a rhanbarthol er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A Lledaenu nodweddion cryfaf yr addysgu ar draws yr ysgol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â sut mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm sy'n annog annibyniaeth ymysg y disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Mae tua hanner y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, gyda ychydig uwchben ac ychydig islaw y lefel honno. Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus yn ystod eu gweithgareddau. Maent yn datblygu'n ddysgwyr hynod annibynnol, hyderus ac aeddfed o oedran cynnar.

Mae medrau gwrando bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn dda iawn. Maent yn gwrando'n ofalus ar eu cymheiriaid ac yn cyfrannu i drafodaethau ac ateb cwestiynau yn aeddfed. Maent yn mynegi eu hunain yn fedrus iawn yn Gymraeg, er enghraifft wrth drafod a dehongli graffiau'n dangos gwahanol niferoedd o drychfilod.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn ymateb yn hyderus i gwestiynau ac yn gwrando'n ystyrlon iawn. Maent yn mynegi barn yn aeddfed a medrus, er enghraifft wrth drafod hanes trychineb neuadd Hafod gerllaw'r ysgol. Mae iaith lafar raenus a naturiol rhan fwyaf y disgyblion yn nodwedd gref iawn.

Mae bron pob disgybl y cyfnod sylfaen yn darllen yn fedrus. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn adnabod llythrennau a chymalau o oedran cynnar ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn iawn o eiriau unsill a deusill yn gyflym. Mae ganddynt fedrau ysgrifennu cynnar da iawn ac maent yn manteisio ar gyfleoedd i greu brawddegau syml mewn cyfryngau a chyd-destunau gwahanol.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn darllen yn fedrus gan addasu eu llais er mwyn creu effaith wrth ddarllen, a thalu sylw dyledus i atalnodi. Maent yn siarad yn fyrlymus am eu llyfrau a'u hoffter am wahanol straeon. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn ysgrifennu'n aeddfed iawn gan arddangos dealltwriaeth dda iawn o atalnodi a sillafu. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amser gorffennol y ferf yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad ffeithiol manwl am ymweliad i fferm leol i weld wyau'n deor. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio geirfa estynedig yn naturiol i gyfoethogi eu gwaith.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn frwdfrydig ac i safon dda iawn yn Gymraeg a Saesneg. Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn trafod eu hoffter am wahanol awduron yn fedrus ac aeddfed iawn, gan gyfeirio at ffurfiau creadigol a ffeithiol sy'n apelio atynt. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ddarllenwyr hynod aeddfed, sy'n darllen yn rhwydd a gyda lefel arbennig o fynegiant. Maent yn arddangos dealltwriaeth dreiddgar o destunau estynedig ac ymestynnol.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n hyderus mewn gwahanol ffurfiau, yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn creu darnau estynedig a hynod effeithiol a synhwyrus, er enghraifft wrth greu protread o'u mam, yn disgrifio ei phersonoliaeth a'i rhinweddau arbennig. Enghraifft nodedig yw'r stori ddychmygus 'Y llyfr hud', sy'n adlewyrchu cymeriadu trawiadol a chymariaethau gwreiddiol, a'r dyddiadur 'y daith llon i Langrannog' sy'n disgrifio ymweliad â gwersyll yr Urdd yn fanwl a gyda gwreiddioldeb a chywirdeb arbennig.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu medrau rhifedd cadarn iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion ieuengaf yn adnabod rhifau hyd at 10 yn hyderus ac yn arddangos dealltwriaeth dda o fondiau rhif. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau i ddatrys problemau syml yn y ddarpariaeth barhaus. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn fathemategwyr medrus a hyderus. Maent yn defnyddio eu medrau yn aeddfed er mwyn ymateb i heriau, er enghraifft wrth drafod sawl coes sydd gan wahanol niferoedd o drychfilod. Mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o briodweddau siapau dau a thri dimensiwn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn llwyddiannus iawn, er enghraifft wrth ddatrys cod llwyau caru Santes Dwynwen.

Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 fedrau rhif cadarn iawn. Maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus iawn mewn cyd-destunau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymateb i her gan gwmni lleol i greu fferm wynt ar y mynydd cyfagos. Mae llawer o'r disgyblion yn arddangos medrau rhagfynegi a mesur rhagorol wrth ddefnyddio graddfa. Mae ganddynt ddealltwriaeth hynod aeddfed o bwysigrwydd cymhwyso'u medrau rhif yn gywir, er enghraifft wrth greu graff manwl yn arddangos faint o rym sydd ei angen i dynnu gwrthrych ar draws gwahanol arwynebau.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ardderchog. Maent yn gwneud dewisiadau ystyrlon ynglŷn a'r offer, y meddalwedd neu'r apiau mwyaf effeithiol er mwyn datrys problem neu gyflawni tasg. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn creu a dehongli bas data yn hyderus ac mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio taenlenni'n llwyddiannus i gofnodi costau creu nwyddau i'w gwerthu ar gyfer ffair Haf yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn cydweithio'n hynod aeddfed a llwyddiannus, er enghraifft wrth ddefnyddio'r dechnoleg sgrin werdd i recordio a chyflwyno eu deialogau.

Mae medrau creadigol rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn nodwedd ragorol. Enghraifft nodedig yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n synhwyrus wrth ymateb i gerddoriaeth gan ganwr Cymraeg cyfoes sydd wedi ei seilio ar waith yr artist, Van Gogh.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae ymddygiad bron pob disgybl o fewn gwersi, yn ystod amseroedd egwyl a chyfnodau o weithio annibynnol, yn rhagorol. Mae'r disgyblion yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch, gofal ac aeddfedrwydd arbennig. Maent yn hynod falch o'u hysgol. Mae bron pob un yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfoedion yn enwedig y disgyblion hŷn wrth ofalu am y disgyblion iau. Mae hon yn nodwedd gref iawn. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn mwynhau'r holl gyfleoedd cyfoethog y maent yn eu cael i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae bron pob un yn mwynhau holl fwrlwm bywyd a gwaith yr ysgol, a'r gweithgareddau symbylus sydd ar gael iddynt, ac yn gwerthfawrogi gofal y staff ohonynt.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth drylwyr o sut i gadw'n iach ac maent yn mwynhau cyfleoedd eang ac amrywiol i ymgymryd â gweithgarwch corfforol. Mae'r disgyblion wedi cynllunio'n ofalus a thrwyadl ar gyfer datblygu gweithgareddau corfforol yn yr ardaloedd allanol, o dan arweiniad cyngor yr ysgol. Enghraifft nodedig yw'r ardal ioga lle mae disgyblion yn datblygu eu medrusrwydd corfforol ac yn

datblygu meddylfryd iach.  Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn mwynhau defnyddio offer chwarae yn yr awyr agored, ac yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn iawn o bwysigrwydd ymarfer corff, a gofalu amdanynt eu hunain a'u hiechyd. Mae gan bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac o edrych ar ôl eu cyrff.  Mae ganddynt ymwybyddiaeth drwyadl iawn o bwysigrwydd datblygu ffyrdd iach o fyw.  Mae bron pob un yn ymwybodol o sut i gadw'n ddiogel ar y we, ac yn deall yn iawn beth i'w wneud os bydd rhywbeth yn eu poeni.

Mae bron pob disgybl yn arddangos agwedd gadarnhaol iawn tuag at eu dysgu.  Ar draws yr ystod oedran a gallu, maent yn dyfalbarhau â'u tasgau yn arbennig o lwyddiannus.  Maent yn arddangos lefel eithriadol o wydnwch a dyfalbarhad wrth wynebu heriau yn eu gwaith ac yn llwyddo i oresgyn anawsterau yn hynod effeithiol. Mae bron pob disgybl yn cydweithio'n llwyddiannus iawn gyda'u cyfoedion ac yn medru cyfrannu at drywyddau nesaf eu dysgu yn annibynnol.  Maent yn datblygu hyder trawiadol wrth arwain eu dysgu.  Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu medrau arwain hynod effeithiol wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer eu cymheiriaid fel rhan o gynllun Dysgu Dawnus,  er enghraifft wrth arwain plant y dosbarth trwy'r broses o greu animeiddiad ar gyfer cyflwyno chwedl Pontarfynach yn gelfydd iawn.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol iawn at eu dysgu.  Maent yn cynnig syniadau i'w cynnwys yn eu themâu, ac yn trafod yn aeddfed gyda'r athrawon. Mae'r disgyblion yn deall bod eu barn yn bwysig wrth iddynt wella eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion, beth bynnag fo'u gallu.  O ganlyniad, maent yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus iawn.  Maent yn cyfrannu at drefnu ymweliadau addysgol ac at wahodd ymwelwyr i'r ysgol, sydd yn cyfoethogi eu gwaith ac yn hyrwyddo eu brwdfrydedd at ddysgu yn hynod effeithiol.

Mae canran presenoldeb y disgyblion yn gadarn dda dros y tair blynedd diwethaf. Mae bron bob disgybl yn awyddus iawn i fynychu'r ysgol bob dydd, gan eu bod yn mwynhau holl weithgareddau symbylus, a'r gofal sydd ar gael iddynt.  Maent yn deall pwysigrwydd presenoldeb cyson.

Mae bron pob disgybl yn hynod gydwybodol ac yn cymryd eu dyletswyddau arwain o ddifrif.  Er enghraifft, mae aelodau o'r cyngor 'Lleisiau Llon - Lleisiau Ni' yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn arbennig o dda.  Maent yn ymfalchïo yn eu rolau'n fawr ac yn trafod yn hyderus.  Maent yn rhoi rhesymau bwriadus dros benderfyniadau a wnânt ar ran y gymuned ysgol, er enghraifft wrth gynnig syniadau creadigol ynglŷn â sut i wella amgylchedd allanol yr ysgol er lles y disgyblion a'i chymuned.

Mae'r 'llysgenhadon gwych' yn sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion ddealltwriaeth drylwyr iawn o hawliau plant. Mae rheolau aur yn dylanwadu ar ymddygiad y disgyblion o ddydd i ddydd yn llwyddiannus iawn ac yn datblygu dealltwriaeth pob disgybl o sut i fod yn ddinasyddion moesol a gwybodus.

### Addysgu a phrofiadau dysgu:  Rhagorol

Mae'r athrawon yn cynllunio ystod gyfoethog a hynod effeithiol o brofiadau dysgu ar gyfer y disgyblion.  Mae'r gweithgareddau yn bodloni anghenion bron pob disgybl yn llwyddiannus iawn.

Mae perthynas weithio agos a hynod gefnogol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda iawn ac yn sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu haddasu'n gelfydd ar gyfer eu gwahanol anghenion. Maent yn herio disgyblion yn barhaus i ymgyrraedd hyd eithaf eu gallu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob un disgybl. Maent yn annog a chefnogi'r disgyblion yn llwyddiannus, gan adeiladu eu hyder yn hynod fedrus wrth iddynt fynd i'r afael â'u tasgau.

Un o nodweddion arloesol yr ysgol yw'r modd y mae athrawon yn addasu a datblygu'r cwricwlwm er mwyn magu annibyniaeth y disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol iawn gydag ysgolion eraill sydd o dan arweinyddiaeth y pennaeth er mwyn treialu newidiadau blaengar i'w cwricwlwm. Mae'r athrawon yn amseru gweithgareddau yn effeithiol iawn, ac yn hwyluso cydweithio rhwng y disgyblion yn hynod lwyddiannus. Mae'r staff yn aml yn gweithredu fel hwyluswyr ar gyfer y dysgu, yn annog a holi'n gelfydd pan fydd angen, tra hefyd yn caniatáu i'r disgyblion wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, a'u hannog i ddysgu o'u camgymeriadau. Nodwedd arbennig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gynllunio a chyflwyno gwersi ar gyfer gweddill y dosbarth, gan ganolbwyntio ar fedrau penodol. Mae'r drefn yn flaengar, ac yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar hunanhyder y disgyblion, ac yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus iawn.

Mae'r holl staff yn fodelau ieithyddol ardderchog. Maent yn modelu iaith yn raenus ac, o ganlyniad, mae Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn llifo'n naturiol. Mae'r staff yn cyfoethogi iaith y disgyblion trwy ddefnydd cyfoethog o idiomau naturiol, sy'n britho eu sgwrs. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ysgrifennu'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn defnyddio holi pen agored yn gelfydd wrth arwain y dysgu. Maent yn annog disgyblion i feddwl drostynt eu hunain trwy osod heriau penodol iddynt. Maent yn llwyddo i sicrhau cydbwysedd llwyddiannus rhwng gweithgareddau sydd yn cael eu harwain gan oedolion, a chyfleoedd i'r disgyblion ddysgu trwy wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, ac ymateb i heriau. O ganlyniad, mae medrau meddwl rhan fwyaf y disgyblion, a'u gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn datblygu'n llwyddiannus iawn.

Mae egwyddorion cwricwlwm y cyfnod sylfaen wedi'u gwreiddio'n hynod lwyddiannus yn yr ysgol. Mae'r staff yn cynllunio cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu trwy brofiad o'r cychwyn cyntaf pan fyddant yn ymuno â'r dosbarth yn y 'derbyn bach.' Mae'r athrawon yn cynllunio amrediad symbylus a chyfoethog o weithgareddau sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau. Mae ardaloedd y ddarpariaeth barhaus a'r ddarpariaeth wedi ei chyfoethogi yn cael ei defnyddio'n feistrolgar er mwyn galluogi disgyblion i arwain y dysgu a datblygu'n unigolion hyderus ac annibynnol. Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad eu medrau corfforol yn effeithiol. Mae cyfleoedd rheolaidd a hynod fuddiol i'r disgyblion ieuengaf ddysgu trwy wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae'r athrawon yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig o safon uchel yn ystod gweithgareddau. Mae'r adborth yn cael ei addasu'n gelfydd ar gyfer gwahanol ddisgyblion, er mwyn eu herio i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd a hynod ddefnyddiol i'r disgyblion werthuso eu cynnydd eu hunain yn erbyn meini prawf llwyddiant penodol. Yng ngyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn creu eu meini prawf eu hunain yn synhwyrol ac yn eu trafod

yn naturiol a hyderus. Gallant ailddrafftio eu gwaith yn aeddfed, gan drafod y rhesymeg dros y gwelliannau y gwnaethant i'w gwaith. Maent yn mwynhau cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i werthuso gwaith eu ffrindiau, gan ddathlu llwyddiant, a chynnig syniadau ynglŷn â gwelliannau posibl.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws yr ysgol yn hynod lwyddiannus. Enghraifft arbennig yw gwaith disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wrth iddynt greu cyflwyniad fideo am hanes llosgi Plasdy'r Hafod. Maent yn ffilmio'r cyflwyniad yn aeddfed, ac yn golygu eu gwaith gan ychwanegu penawdau yn fedrus.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gymuned arbennig o ofalgar a chynhwysol. Mae llais y disgybl yn greiddiol a chanolog i waith ac ethos yr ysgol. Mae'r staff yn annog y disgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion hyderus a theyrngar i'w cymuned. Mae'r naws deuluol sy'n hyrwyddo parch a chwrteisi ymysg y disgyblion, yn nodwedd eithriadol. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd a chyfoethog iawn i'r disgyblion gyfrannu at eu cymuned ysgol, ac yn hyrwyddo eu cyfranogiad yn y gymuned ehanach. Enghraifft nodedig yw'r cynllun 'Mentergarwch Mynach' ar gyfer creu cynnyrch i'w farchnata yn lleol er mwyn codi arian ar gyfer adnoddau'r ysgol. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd hynod gyfoethog i farchnanta'r cynnych ac i ddatblygu dealltwriaeth o redeg busnes trwy gyllidebu'n ofalus.

Mae'r athrawon yn defnyddio gweithdrefnau trylwyr ac effeithiol iawn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion o'u cychwyn cyntaf yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn olrhain yr holl grwpiau o ddysgwyr yn fwriadus, gan gynnwys disgyblion mwy abl, disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion dysgu ychwanegol ynghyd â disgyblion sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim. Maent yn gwneud defnydd cyson a manwl o'r gweithdrefnau er mwyn grwpio a thargedu disgyblion unigol fel y gallant dderbyn cymorth penodol. Er enghraifft, mae disgyblion mwyaf abl pen uchaf cyfnod allweddol 2 yn cael cyfleoedd buddiol i ymestyn eu medrau llythrennedd a rhifedd trwy weithio ar becyn o adnoddau pontio sydd wedi eu cynllunio gan yr ysgol uwchradd leol. O ganlyniad i'r wybodaeth o'r weithdrefn olrhain, mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu hymestyn yn llawn, ac yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr iawn. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn teilwra ymyrraeth ar eu cyfer yn fanwl a hynod llwyddiannus. O dan arweiniad medrus y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, mae cymorthyddion wedi eu hyfforddi er mwyn darparu rhaglenni ymyrraeth pwrpasol ar gyfer disgyblion penodol. Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn dda. Er enghraifft, maent wedi sicrhau hyfforddiant staff ar gyfer hyrwyddo llythrennedd emosiynol disgyblion sydd angen cynhaliaeth ychwanegol.

Mae arweinwyr a staff yn cynllunio 'proffiliau un dudalen' o ansawdd da iawn, gan gynnwys y plentyn yn llawn yn y broses. Caiff y proffiliau eu hadolygu'n gyson trwy ymgynghori â'r disgyblion, eu rhieni ac asiantaethau allanol perthnasol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblon yn deall beth sydd angen iddynt ei wneud i gyrraedd eu targedau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer cydweithio â gwasanaethau arbenigol allanol, fel y seicolegydd addysg a therapydd iaith a lleferydd, yn effeithiol, ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn cael cefnogaeth dda gan asiantaethau allanol, fel yr heddlu a'r gwasanaeth tân, sydd o fudd i'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn mynd ati i helpu i ddatblygu gallu rhieni i gefnogi eu plant yn effeithiol iawn. Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn rhoi gwybodaeth dda iawn i rieni am gynnydd eu plant ac am sut y gall eu plentyn wneud rhagor o gynnydd yn y dyfodol. Mae'r adroddiadau yn bersonol i'r disgybl ac yn cynnwys enghreifftiau manwl sy'n dathlu llwyddiant yr unigolyn ac yn hybu hunanhyder y disgybl yn llwyddiannus iawn

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, gymdeithasol a moesol y disgyblion drwy wasanaethau a sesiynau addoli ar y cyd. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd cyfoethog iawn i'r disgyblion ddysgu am amrywiaeth a diwylliannau gwahanol. Caiff disgyblion ar draws yr ysgol eu hannog i fwyta ac yfed yn iach. Trwy weithgareddau corfforol yn ystod y dydd a chlybiau ar ôl ysgol, caiff y disgyblion amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd a'u iechyd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau celfyddydol creadigol y ddisgyblion yn ardderchog. Mae cyfleoedd eang a chyfoethog i ddisgyblion arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau fel arlunio, creu crochenwaith, gwehyddu, argraffu a gwneud gwaith ffeltio. Mae hon yn nodwedd ragorol. Wrth efelychu gwaith artistiaid enwog fel Van Gogh ac arbenigwyr cyfoes lleol, mae'r disgyblion yn cynhyrchu gwaith o safon uchel iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan mewn perfformiadau mewnol a llawer mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Maent yn cael cyfleoedd arbennig i weld perfformiadau byw gan gwmnïau drama sy'n cyfoethogi eu gwaith yn ardderchog. Enghraifft arloesol oedd fod yr ysgol wedi trefnu i gwmni drama gyflwyno perfformiad am hanes y bardd Hedd Wyn, ar safle'r Ysgwrn, ei gartref genedigol.

Mae'r trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth hynod gadarn sydd wedi ei seilio ar sicrhau cymuned addysgol flaengar a chynhwysol. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn gyda'r tîm o benaethiaid cynorthwyol. Mae'n manteisio'n effeithiol ar gryfderau'r staff wrth hyrwyddo datblygiad mewn gwahanol feysydd. Enghraifft nodedig o hyn yw'r datblygiadau ym maes TGCh sydd wedi arwain at gynnydd cadarnhaol iawn mewn safonau a hyder y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r pennaeth yn sicrhau ffocws parhaus a hynod effeithiol ar gynnal a chodi safonau cyflawniad disgyblion, ac ar sicrhau lefel uchel o les ar eu cyfer. Mae'r pennaeth, y pennaeth cynorthwyol a'r staff yn cydweithio'n effeithiol iawn gan rannu cyfrifoldebau a rhannu arferion da ar draws yr ysgolion sy'n cydweithio'n ffurfiol.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth drylwyr a manwl iawn am berfformiad yr ysgol. Maent yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr gan y pennaeth ac aelodau'r tîm arwain ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau cyfredol. Maent yn chwarae rôl weithredol a llwyddiannus yng ngweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol trwy gymryd rhan mewn amrediad o weithgareddau fel teithiau dysgu a chraffu ar

waith disgyblion er mwyn mesur cynnydd. Maent yn cymryd rhan mewn arsylwadau gwersi, ac yn cyfrannu at gyfarfodydd lle bydd athrawon yn rhannu arfer dda. Maent yn cynnig adborth datblygiadol hynod werthfawr i'r corff llywodraethol, ac yn gwerthuso gweithgareddau'r cynllun datblygu ysgol yn barhaus. Maent yn cefnogi'r pennaeth a'r tîm arwain yn fwriadus, tra hefyd yn sicrhau lefel uchel o atebolrwydd gan weithredu fel ffrind beirniadol i'r ysgol yn llwyddiannus iawn. Mae hon yn nodwedd ardderchog o waith yr ysgol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso wedi eu gwreiddio'n gadarn iawn yn yr ysgol. Mae arweinwyr yn cynnig arweiniad gwerthfawr i'w cydweithwyr, gan gytuno ar flaenoriaethau gwella addas. Maent yn canolbwyntio'n barhaus ar wella safonau cyflawniad disgyblion trwy ddatblygu'r ddarpariaeth. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r modd y mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd i ddisgyblion arwain y dysgu ar gyfer gweithgareddau penodol yng nghyfnod allweddol 2. Mae ethos ysgol gyfan o graffu ar berfformiad ac o herio eu hunain i wella yn nodwedd gref iawn. Mae blaenoriaethau gwella synhwyrol yn cael eu crynhoi'n gynllun datblygu ysgol hynod fanwl, sy'n nodi gweithgareddau gwella priodol. Mae'r cynllun yn cael ei werthuso'n rheolaidd yn unol â meini prawf penodol, a cherrig milltir addas.

Un o nodweddion blaengar yr ysgol yw'r modd y mae arweinwyr yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol ymysg yr athrawon a'r cymorthyddion. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd niferus a hynod werthfawr i staff ddatblygu eu medrau trwy rannu arferion da o fewn yr ysgol, ar draws yr ysgolion sy'n cydweithio'n ffurfiol ac yn ehangach. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn datblygu'n barhaus trwy amrediad cyfoethog o weithgareddau, fel hyfforddiant ar gyfer arweinwyr canol, a hyfforddiant ar gyfer hyrwyddo'r fframwaith cymhwysedd digidol. Mae arweinwyr hefyd yn rhyddhau staff i gydweithio â'r consortiwm rhanbarthol i gefnogi ysgolion eraill gyda datblygu'r cwricwlwm newydd. Mae'r pennaeth yn gweithio gyda'r consortiwm rhanbarthol er mwyn rhannu arfer dda gyda ysgolion sy'n cydweithio o dan arweinyddiaeth un pennaeth. O ganlyniad, mae'r ysgol yn derbyn syniadau newydd, ac yn cynnal bwrlwm wrth dreialu gweithgareddau blaengar.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn llwyddiannus iawn. Mae gan yr ysgol amrediad da iawn o adnoddau ac maent yn canolbwyntio'n gyson ar ddatblygu eu hardaloedd dysgu a thiroedd yr ysgol, sy'n hyrwyddo cynnydd a lles disgyblion yn rhagorol. Mae ardaloedd allanol y cyfnod sylfaen yn cyfrannu'n sylweddol iawn at y profiadau dysgu sbardunol a chyfoethog sy'n cael eu darparu ar gyfer y disgyblion. Mae tir yr ysgol yn darparu cyfleoedd symbylus iawn i'r disgyblion gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau, er enghraifft wrth ddefnyddio offer chwarae mawr sy'n hyrwyddo datblygiad corfforol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn fanwl ac mae adnoddau addas yn cael eu targedu tuag at flaenoriaethau cyfredol y cynllun datblygu ysgol. Mae gwariant yn cael ei werthuso'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwerth am arian. Mae cyllid ar ffurf grantiau yn cael ei dargedu'n bwrpasol. Er enghraifft, mae'r grant amddifadedd disgyblion yn cael ei ddefnyddio i sicrhau mynediad cyfartal at wersi offerynnol a theithiau addysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2019